



William Powell AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
CF99 1NA

08/04/2013

Annwyl Mr Powell,

### **Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cyf P-04-409/427)**

Diolch am eich llythyr yn gofyn am farn y Comisiynydd ynghylch y ddwy ddeiseb uchod.

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dyma sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar y ddwy ddeiseb.

### **P-04-409 Enwau Cymraeg i bob cefnffordd newydd yng Nghymru**

Rydym yn cydnabod ysbryd cefnogol y ddeiseb hon i'r Gymraeg. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gefnffyrdd Cymru. Rydym yn cydnabod hefyd ymateb y Llywodraeth i'ch cais am sylwadau ganddynt ynghylch cais y ddeiseb hon ac yn nodi y byddai'n anodd enwi cefnffyrdd sy'n hir dros ben ac yn ymestyn drwy rannau gwahanol o'r wlad. Pe bai hi'n

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221  
post@comisiynyddygybraeg.org  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.org  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

ddymuniad gan y Llywodraeth maes o law i enwi cefnffyrdd Cymru byddem yn disgwyl iddynt wneud hynny yn unol â'u Cynllun Iaith Gymraeg, a maes o law yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### **P-04-427 Cyfraith newydd ynghylch y Gymraeg**

Derbyniodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gydsyniad brenhinol ym mis Chwefror 2011. Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan y Mesur. Mae'r Mesur yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn cyflwyno dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau statudol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd safonau yn nodi sut mae disgwyl i sefydliadau drin a defnyddio'r Gymraeg. Bydd y safonau'n un modd y caiff ei ddefnyddio er mwyn rhoi effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru.

Dros gyfnod o amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ran 2 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Mesur yn caniatáu i rai sefydliadau o'r sector breifat fod yn agored i gydymffurfio â safonau. Mae'r categorïau hynny'n cael eu rhestru yn Atodlen 7 ac 8 y Mesur. Hyd nes y daw safonau statudol i rym mae'n anodd ystyried eu llawn botensial ar y sector breifat.

Mae teitl hir y Mesur yn cyfeirio at hawliau i unigolion, fydd yn deillio o allu gorfodi'r ddyletswydd i gydymffurfio â safonau ond mae'n deg nodi mai dyma'r unig gyfeiriad sydd yn y Mesur at hawliau unigolion.

Mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn gynamserol i fod yn gwneud datganiad am lawn effaith y Mesur ar hyn o bryd. Serch hynny byddai'r Comisiynydd yn croesawu cyfarfod blynyddol â'r Pwyllgor perthnasol ar y mater hwn, gan mai un o swyddogaethau'r Comisiynydd, Adran 4 (2)(c) *yw cadw digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth.*

Yr eiddoch yn gywir,

Comisiynydd y Gymraeg